

## PARRY, JOHN (1812 - 1874), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac athro yng Ngholeg y Bala

**Enw:** John Parry

**Dyddiad geni:** 1812

**Dyddiad marw:** 1874

**Priod:** Sarah Parry (née Gee)

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac athro yng Ngholeg y Bala

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 23 Mawrth 1812 yn Bersham, ond yn 1824 symudodd ei rieni i Fanceinion. Anfodddhaol oedd yr ysgolion yr aeth iddynt yn blentyn; ac yn wyneb Seisnigrwydd amgylchedd ei febyd, ni thyfodd yn Gymreigiwr da cyn mynd i'r Bala. Prentisiwyd ef i ddwy grefft, a dilynai ddosbarthiadau nos yn y Mechanics Institute ym Manceinion; yno cymerth at fathemateg a gwyddoniaeth gyda'r fath sêl fel y cafodd drafferth ddirfawr i gael caniatâd i ddechrau pregethu; yn wir, derbyniodd [Lewis Edwards](#) ef i Goleg y Bala cyn iddo gael y caniatâd hwn. Aeth i'r Bala yn 1838. Rhwng 1841 a 1843 bwriodd dymhorau (bylchog, yn herwydd prinder arian) ym Mhrifysgol Edinburgh. Yn 1843, dewiswyd ef gan [Lewis Edwards](#) yn ail athro yn y Bala, a bu yno weddill ei oes. Rhoes ei waith fel athro o flaen popeth; anfynych y bodlonai i bregethu ond yng nghylch y Bala, a chafwyd trafferth fawr i gael ganddo sgrifennu i'r *Traethodydd* pan gychwynwyd hwnnw. Fel athro, ni bu neb mwy cydwybodol; nid ymddengys fod ynddo unrhyw wreiddioldeb, ond ymboenai gyda'r gwannaf o'i fyfyrwyr, ac odid nad oedd yn fwy cymeradwy gan y cyfangorff ohonynt na [Lewis Edwards](#) ei hunan - ond y mae'n debyg fod cyfiawnder ym marn [J. Cynddylan Jones](#) ei fod yn gwneud gormod o'r gwaith drostynt, ac mai [Lewis Edwards](#) oedd y gorau ar eu gwir les. Ordeiniwyd ef yn 1845, a bu'n llywydd y gymdeithasfa yn y Gogledd yn 1866. Priododd yn 1844 â Sarah Gee, chwaer y cyhoeddwr [Thomas Gee](#). Pan gychwynnodd [Gee](#) *Y Gwyddoniadur*, yn 1853, perswadiodd John Parry i'w olygu; a'i gysylltiad â'r gwaith hwnnw (serch iddo farw ymhell cyn ei orffen) a'i gwnaeth yn enw cenedlaethol; yr oedd y gorchwyl o olygu gwaith o'r fath yn hollol gydnaws â'i anian ac â'i gydwybodolrwydd. Dadfeiliodd ei iechyd yn gyflym o 1865 ymlaen, a bu farw 19 Ionawr 1874.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Seiliwyd yn bennaf ar tt. xix-xxxviii o ragymadrodd Owen Thomas i'r *Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96)

### Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [John Parry](#)

## Delweddau

Brown, Barnes & Bell, [Dr. John Parry \(of Bala\)](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [96836886](#)

Wikidata: [Q13129342](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

